

❖ RHYFEDDOD YR ANNISGWYL

O holi'r plant, 'Beth hoffech chi gael Nadolig?' bydd y rhan fwyaf yn gallu dweud yn union beth maent yn ei ddisgwyl – a Santa'n gobeithio na fyddant yn newid eu meddwl ar yr unfed awr ar ddeg! Ond bydd ambell un yn dweud eu bod yn edrych ymlaen at gael syrpreis. Mae rhywbeth yn addas iawn yn hynny, achos mae stori'r Nadolig yn llawn o'r annisgwyl.

Y LLE

I Jerwsalem yr aeth y doethion i chwilio am y baban, fel y byddech yn disgwyl. Yno y tyrrai'r Iddewon ar eu pererindodau i'r gwyliau mawr, i gyfarfod â Duw yn ei ddinas, dinas iachawdwriaeth a dinas heddwch. Ond nid yno ond yn nhref ddiarffordd Bethlehem y ganwyd y Gwaredwr.

Mae ystyr Bethlehem 'Tŷ Bara' yn addas iawn i fod yn fan geni yr un sy'n Fara'r Bywyd. Ond doedd neb ond y proffwyd yn disgwyl mai yno y câi'r Meseia ei eni, yn ôl pob sôn.

Trist meddwl bod Bethlehem yn dal o'r golwg heddiw, a'r Mur yn cau am y dre, ac yn atal pobl rhag cyfarfod â'i gilydd. Mae un elusen yn gwerthu setiau o'r geni lle mae'r Mur yn rhwystro'r doethion rhag dod at y crud. Mae'n ddarlun pwerus.

I ganfod Crist rhaid dod i'r dre ddi-nod, a chwilio amdano yn y lle mwyaf di-nod yno, y man lle câi'r anifeiliaid gysgodi. Prin bod lle i'r Duwdod yn ei fyd ei hun!

Y BOBL

Rhai di-nod yw prif gymeriadau'r hanes. Enwir eraill, pobl sy'n gyfarwydd i filoedd, Cesar Awgwstws a Chyrenius, a'u gwthio'n syth i'r cysgodion. Maen nhw'n gwbl amherthnasol i'r digwyddiad ysblennydd hwn – eu hunig rôl yw dangos pryd y bu hyn.

Pobl di-sôn amdanynt sy'n cael eu galw i ganol y llwyfan:

Hen bobl od. Ecsentric. Simeon, ac Anna, na fydd byth yn mynd allan o'r Deml.

Dwy wraig nad oes modd iddynt fod yn feichiog: Elisabeth yn ei henaint yn dilyn oes o boen personol o fod yn ddi-blant, a gwarth cymdeithasol ar ben hynny; Mair, merch gyffredin o dre fechan a'i stori ryfedd am feichiogi y tu allan i briodas.

Bugeiliaid garw ac anllythrennog. Pan ddewisodd Arglwydd y Nef ei fod am gyhoeddi genedigaeth ei Fab, fu dim cynhadledd i'r wasg yn Rhufain nac yn Jerwsalem. Anfonodd negeswyr i ddatgan y newyddion i'r rhai bychain hyn.

Ymwelwyr annisgwyl o bell yn dod â'u trysorau rhyfedd.

Un o'r darnau rhyfeddaf yn yr holl hanes yw Cân Mair. Mae'r geiriau yn orfoledd ac yn llawn rhyfeddod, ei bod hi o blith y distadlaf â rhan yn y cynllun mawr sydd ar y gweill ers canrifoedd. Mae'n gwybod na fydd dim byd yr un fath ar ôl hyn, iddi hi ei hun nac i'r byd.

YR UN

Mor hir fu'r disgwyl am yr Un sydd i ddod. Ac mae mor wahanol ar lawer cyfrif i'r un a ddisgwylid. Dyna pam y cafodd ei wrthod gan ei bobl ei hun.

Fydd hwn ddim yn codi cleddyf fel bod yr Iddewon yn feistri byd. Daw, fel y dywedodd y proffwyd, yn Dywysog Heddwch. Nid ei osod ei hun yn unben a mynnu teyrngarwch gan atal pob llais arall a wna. Ni fydd yn gorfodi heddwch o'i balas. Yn wylaidd mae'n cynnig tangnefedd Duw, o'i grud, lle mae'n gwbl ddi-amddiffyn, ond nid yn ddi-nerth.

A'r syrpreis mwyaf oll, rhyfeddod pob rhyfeddod, yng ngeiriau Pantycelyn:

Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

Dewi M. Hughes